CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN PAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS , 7.30 y.h. NOS LUN 7fed GORFFENNAF 2025.

1. **CROESO**

Gan fod y Cadeirydd Cynghorydd Glena Humphrey ddim yn bresennol cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirpwy Cadeirydd Gethin Owen. Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2. **YN BRESENNOL**

Cynghorion Gethin Owen, Irwedd GRIFFITHS, Goronwy R. WILLIAMS, D. Gwyn JONES, Gwenda DAVIES, Gwawr Thomas, John EVANS, Hefin WILLIAMS Cynghorydd y Sir - Ifor G. LLOYD a'r Clerc – Mel JONES.

3. **YMDDIHEURIADAU**

Cynghorion Glena Humphrey a Bryn JONES.

4. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau yn ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

Roedd dim dataganiad o ddiddordeb.

5. **COFNODION**

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 fed Mehefin 2025 (Cynnig – Cynghorydd Goronwy Williams ac eilwyd gan y Cynghorydd Gwyn Jones)

6. MATERION YN CODI

Diweddariad gan y Clerc ei fod wedi siarad hefo John ag Aloma Wheway ac wedi diolch iddynt ar rhan y Cyngor am agor y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos pob nos Wener i'r ieuenctid lleol gael lle diogel i gyfarfod a cael lluniaeth.

7. CYLLID

Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod ddod i ddod i ben 20fed Mehefin 2025.

Dod i ben 20fed Mehefin 2025

Cyfrif Cymunedol	= £4,565.36 (Dwyn Ymlaen)
Arian i Mewn	= £596.61 (Ad daliad VAT)
Arian Allan	= £198.00 (Aelodaeth Un Llais Cymru)
	= £193.94 (Cyflog Clerc)
	= £400.00 (Cyflog Clerc)
	= £193.94 (Cyflog y Clerc)
	= £5.00 (Costau Banc)
	= £70.50 (Hilda Gibbs – cost planhigion)
	= £170.00 (Arfon Parry – cost y wefan)
	= £333.60 (Anfoneb archwiliad JDH)
	= £197.23 (HMRC Cyflog y Clerc)
	CYFANSWM – £1,762.21

Cyfrif Cymunedol = £3,399..76 (Cludwyd Ymlaen)

Cyfrif Busnes	= £4,071.02 (Dwyn Ymlaen)
Arian Allan	= DIM
Arian i Mewn	= £17.35 (Llog i 5/6/25)

Cyfrif Busnes = £4,088.37 (Cludwyd Ymlaen)

Cyfanswm **= £7,488.13**

Nododd yr aelodau y sefyllfa ariannol a'r adroddiad banc fel a restir uwchben.

Cytunodd pawb a'r adroddiad yma.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb

Mae'r anfonebau/ceisiadau a restrir isod angen ei talu:

£375.00 – Anfoneb rhif ARINV/013558 gan Archwiliad Cymru am archwiliad 2024/2025

Cytunodd pawb i'r Clerc dalu yr anfoneb yma.

Diweddariad gan y Clerc for manylion cyfrif banc Mynwent Betws yn Rhos ganddo a fydd grant am £500.00 yn cael ei dalu.

Nid oedd tal i BT yn Mehefin am fod llythyr wedi ei dderbyn ganddynt yn cadarnhau iawndal wedi ei dalu am yr oedi hefo gosod WiFi yn Neuadd Llanelian.

1. £239.94 am 12 diwrnod credyd rhent
2. £50 fel ystum o ewyllys da

Roedd hefyd ymddiheuriad yn y llythyr an yr oedi.

Roedd y Clerc yn awyddus i archebu 30 batri i'r diffibrilwyr am fod 20 o fatris wedi cael ei defnyddio yn y ddau diffibrilwyr yn Dolwen a Holland Arms. Rhodd awdurdod i archebu y batris a fydd y gost yn cael ei rhannu cyn gwneud taliad.

8. GOHEBIAETH

Derbynwyd

1. Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc

Anfonwyd

1. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
2. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

9. GRANTIAU

Ceisiadau i'r Cyngor

Diweddariad gan y Clerc for manylion cyfrif banc Mynwent Betws yn Rhos ganddo a fydd grant am £500.00 yn cael ei dalu.

Ceisiadau gan y Cyngor

Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

Fydd yn gofyn rhoid cais i mewn yn y dyfodol i atgyweiro cae chwarae Betws yn Rhos.

10. CYNLLUNIO - http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/52628 **Ymgeisydd: Mr and Mrs P & W Arundale**

Cynllun: Addasu adeiladau allan presennol i ddarparu llety domestig ychwanegol sy'n ategol at fwynhad yr annedd

Safle: Celynnen Llanelian Conwy LL29 6AT

Fe edrychwyd ar y dogfennau cynllunio. Roedd gan y Cynghorion ddim gwrthwynebiad i'r cais. Roedd y Cyngor yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad.

Y Clerc i yrru y gwybodaeth i'r Adran Gynllunio

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/52622 **Ymgeisydd: Mr Sean McBride**

Cynllun: Amrywio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio 0/45158 (Cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl o ran caniatâd cynllunio amlinellol 0/42343 (Datblygiad tir gyferbyn â Bryn Rodyn, (Ffordd Dolwen) Hen Golwyn ar gyfer tai preswyl (Caniatâd Cynllunio Amlinellol) (Cam 2) i ganiatáu ar gyfer y gwelliannau ôl-weithredol i'r cynllun a gymeradwywyd

Safle: Tir yn Ffordd Dolwen, Old Colwyn Colwyn Bay Conwy LL29 8UP

Fe edrychwyd ar y dogfennau cynllunio. Roedd gan y Cynghorion ddim gwrthwynebiad i'r cais. Roedd y Cyngor yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad.

Y Clerc i yrru y gwybodaeth i'r Adran Gynllunio

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/52621 **Ymgeisydd: Mr Sean McBride**

Cynllun: Amrywio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio 0/45161 (Cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl o ran caniatâd cynllunio amlinellol 0/42351 (Datblygiad tir gyferbyn â Bryn Rodyn, (Ffordd Dolwen) Hen Golwyn ar gyfer tai preswyl (Caniatâd Cynllunio Amlinellol) (Cam 1) i ganiatáu ar gyfer gwelliannau i'r cynllun a gymeradwywyd

Safle: Land at Dolwen Road Old Colwyn Colwyn Bay Conwy LL29 8UP

Fe edrychwyd ar y dogfennau cynllunio. Roedd gan y Cynghorion ddim gwrthwynebiad i'r cais. Roedd y Cyngor yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad.

Y Clerc i yrru y gwybodaeth i'r Adran Gynllunio

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/52591 **Ymgeisydd: Mr Nigel Williams**

Cynllun: Estyniadau to ar oleddf unllawr i annedd bresennol

Safle: Springhill Ffynhonnau Road Betws Yn Rhos LL22 8AB

Fe edrychwyd ar y dogfennau cynllunio. Roedd gan y Cynghorion ddim gwrthwynebiad i'r cais. Roedd y Cyngor yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad.

Y Clerc i yrru y gwybodaeth i'r Adran Gynllunio

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/52584 **Ymgeisydd: Mr Max Jones**

Cynllun: Gogledd: Newid defnydd tir o gae amaethyddol i ardal ymarfer cwn (defnydd unigryw) ynghyd â gwaith cysylltiedig ar gyfer parcio a thirlunio

Safle: Tir ger Bryn Rodyn Old Colwyn Colwyn Bay Conwy LL29 8UU

Fe edrychwyd ar y dogfennau cynllunio. Roedd y Cynghorion yn gwrthwynebu y cais. Roedd pryderion am teithio diogel i'r safle a diogelwch cerddwyr i'r safle. Mae oriau agored hir yn y cais ac fydd swn cwn yn cyfarth a traffig ychwanegol yn cael effaith negyddol ar fywydau y cymdogion agos.

Nodwyd hefyd fod nifer o gymdogion wedi gwrthwynebu'r cais

Y Cyngor yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad.

Y Clerc i yrru y gwybodaeth i'r Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52538 **Ymgeisydd: Mrs Elmaira Watson**

Cynllun: Newid defnydd adeilad cerrig amaethyddol nad yw'n cael ei ddefnyddio ac ysgubor yn ogystal â sied storio ffrâm ddur i annedd teulu unigol

Safle: Tyn Y Wal Farm Pencraig Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NT

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52477 **Ymgeisydd: Mr Hughes**

Cynllun: Sied amaethyddol arfaethedig ar gyfer cadw offer amaethyddol

Safle: Plas Meredydd Pen Y Ffrith Betws Yn Rhos LL22 8BU

Wedi cael ei gymeradwyo gan yr Adran Cynllunio

Cyfeirnod: 0/52387 **Ymgeisydd: BR Storage**

Cynllun: Newid defnydd tir ar gyfer storio carafanau gyda thirlunio cysylltiedig

Safle: Bryn Rodyn, Ffordd Dolwen, Hen Golwyn LL29 8UU

Wedi cael ei wrthod gan yr Adran Gynllunio

11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Roedd datganiad cyfrif yr archwiliad lleol a gan Archwiliad Cymru 2024/2025 wedi ei drafod yn y cyfarfod diwethaf.

Diweddariad gan y Clerc fod yr hybysiadau wedi cael ei postio fel awrymwyd can Archwiliad Cymru.

12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

Diweddaraid gan Cynghorydd Ifor Lloyd fod Adran Gynllunio Sir Gonwy wedi gyrru llythyr cydymffurfiaeth i berchennog Fferm Peaceful Mountain, Betws yn Rhos am fod rheolau cynllunio wedi ei torri.

Mae Cynghorydd Lloyd wedi cael ei ethol fel cadeiryddd pwyllgor cynllunio y Sir ac fydd yn dechrau yn y swydd yn fuan.

Mae y gwaith wedi ei ddechrau i atgyweiro ffyrdd gwledig hefo £4.7 miliwn wedi ei glustnodi o'r cyllideb.

13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL

a. **Caeau Chwaraeon Plant -Betws yn Rhos/Llanelian.**

Mae y Clerc wedi derby amcangyfrif gan KOMPAN am yr offerau canlynol: Tudalen 84 – MSC 5424, Tudalen 100 – PCM 400221, Tudalen 152 – M128/M175

Y gost yw £46,353.99

Wedi trafod y gost y penderfyniad oedd i gael y gost am

1. Offer pedwar twr hefo twnel a sleid

2. Springer lilies dwr

Y Clerc i ofyn am amcangyfrif newydd gan KOMPAN ac wedyn i edrych am ffynhonellau taliad grant a cael cyfarfod hefo CVSC Conwy. Cynnigodd y Cynghorydd Ifor Lloyd fynd i unrhyw gyfarfod hefo'r Clerc.

b. **Diffibrilwyr.**

Mae batris yn dau or diffibrilwyr wedi cael ei newid – 20 o fatris. Mae caniatad wedi ei rhoid i'r Clerc brynnu 30 o fatris newydd yn barod i newid nhw yn y tri diffibrilwr arall.

Y Clerc wedi siarad hefo Tomos Hughes ac offer i ddod i siarad hefo cymunedau Llanelian a Betws yn Rhos yn y prynhawn yn mis Medi ar ddyddiad cyfleus. Y teimlad oedd fuasai mwy cyfleus cael cyfarfodydd yn fuan yn y nos fydd yn cael mwy yn bresenol. Y Clerc i siarad hefo Tomos Hughes.

c. **Yr Hwb**

Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00 yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

d. **Gwlau blodau/Meinciau Ffordd Abergele**

Mae Hilda Gibbs wedi plannu blodau yn potiau yn pentref Betws.

e. **Toiledau yn Betws yn Rhos/Llanelian**

Roedd Cynghorydd John Evans wedi diweddaru eisioes fod Pwyllgor Eglwys Betws yn Rhos yn edrych at atgyweiro adeilad tu allan i'r eglwys fel toiled.Fydd diweddariad ar gael pan fydd cynnydd yn y planniau. Mae'r Cyngor Cymuned yn fodlon i gefnogi Pwyllgor yr Eglwys.

Ynglyn a toiledau Llanelian mae y Clerc wedi cael amcangyfrif am y gwaith gan Dylan Llyr, (Cyfreithiwr) Cwmni Howell Jones, Llanrwst.Mae yn dipyn ar y gwaith chwiliadau yn y blaen ond fyff y gost rhwng £995 - £1,495 + VAT. Mae y Clerc wedi gofyn i Cyngor Cymuned Llanddulas os oeddent wedi defnyddio cyfreithwr. Rhodd awdurdod i'r gwaith gael ei gwbwlhau gan y cyfreithwr.

Y Clerc wedi gofyn i gwmni Zurich beth fydd cost iswrant adeilad y toiledau. Yn dal i ddisgwyl y manylion.

Roedd cytundeb i'r Clerc ddiweddaru y Cynghorion ar Ebost i wneud unrhyw benderfyniad cyn y cyfarfod nesaf.

f. **Materion arall**

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu i Cyngor y Sir ynglyn am led y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a'r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos a hefyd y 'gazebo' dros yr afon yn Llais Afon sydd yn debyg i amharu hefo ochr yr afon. Mae Cyngor y Sir wedi ateb ac yn cael ymchwil o dan cyfeirnod 112632. Mae asesiad fod y gwaith yn ddi-frys.

Ynglyn a'r mater gododd Cynghorydd Irwedd Griffiths ar y15fed Gorffennaf am dro cul ar y ffordd rhwng Nant y Cohl a Bryn Derwen mae y gwaith yn dal i ddisgwyl.

Coed Ty Brith, Ffordd Abergele, Betws yn Rhos. Cae yn cael ei ddefnyddio fel Parc Cwn a Tepees yn y safle. Mae yr Adran Gynllunio yn ymwybodol ac fydd diweddariad mewn amser.

Y Clerc wedi ysgrifennu i'r Adran Gynllunio for dau teepee ar y safle. Mae y Cyngor yn mynd i gysylltu a'r perchennog

Tir ger Nant Uchaf, Betws yn Rhos. Cae yn cael ei ddefnyddio i gadw peiriantau trwm. Mae yr Adran Gynllunio yn ymwybodol ac fydd diweddariad mewn amser.

Mae angen ail blannu y goeden mwnci yn ymyl Pafilwn Chwaraeon, Betws yn Rhos. Mae y goeden o ffordd darparu parcio ychwanegol. Mae AJC Contractors yn mynd i ail blannu y goeden. Mae Cynghorydd Ifor Lloyd yn foldlon cysylltu hefo AJC Contractors. Nid yw'r goeden wedi cael ei ail plannu hyd yn hyn

Y Clerc wedi ysgrifennu at y Cyngor Sir fod y clawdd ar Ffordd Abergele gyferbn a Nant y Ffordd yn fler ac eisio ei docio. Y Cyngor Sir wedi ymateb fod lleiniau ffordd yn cae eu torri unwaith y flwyddyn er mwyn sisrhau diogelwch defnyddwyryn yn mis Mehefin a Gorffennaf.

14. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT

Mae y cais praesept am £18,000 wedi cael ei gytuno gan y Cyngor Sir. £6,000 wedi ei dalu i'r cyfrif banc ar 15/4/25 ac fydd y ddau daliad arall yn mis Awst 2025 a mis Rhagfyr 2025.

15. **FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA**

Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny.
Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth**:**
Overview
About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps
Our work so far Interactions with other marine users
Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map.

Dim diweddariad ynglyn a cynllun tyrbines gwynt a parc solar ar Fynydd Llanelian. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais.

Mae cynllun fferm wynt Mona wedi cael ei gymeradwyo. Mae y dogfennau wedi cael ei gyrru i'r Clerc a fe wnaith yrru nhw ymalen i'r Cynghorion.

16. **Y GADLAS**

Dim awgrymiad am erthygl.

17. **UNRHYW FATER ARALL**

Gan nad oedd materion eraill fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.30 yh.

CADEIRYDD …….. Glena Humphrey

CLERC…… Mel Jones

DYDDIAD: 1af Medi 2025